Sgrinio Cyn Geni Cymru
Antenatal Screening Wales

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales



Gwybodaeth i fenywod sydd â siawns uwch o gael babi â **syndrom Down**

© Hawlfraint 2011 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cedwir pob hawl.
Ni cheir ei atgynhyrchu yn gyfan neu yn rhannol heb ganiatâd perchennog yr hawlfraint.

Mae'r daflen yma i fenywod sydd wedi cael prawf sgrinio am syndrom Down, ac sydd wedi cael gwybod bod siawns uwch ganddyn nhw o gael babi â syndrom Down.

Mae'r daflen yn esbonio canlyniad y prawf sgrinio, ac mae'n rhoi gwybodaeth am y camau nesaf.

Mae'r daflen hefyd yn cynnig gwybodaeth am bobl â syndrom Down.

Cymraeg Clir
cyfieithwyd gan Ganolfan Bedwyr
Prifysgol Cymru, Bangor

www.sgriniocyngeni.org
Ebrill 2011
HDS 5

Sgrinio ar syndrom Down

Mae canlyniad y prawf sgrinio am syndrom Down yn dweud wrthych chi pa siawns sydd gennych chi o gael babi â syndrom Down.

Cofiwch fod y siawns yn uwch os yw'r rhif yn isel. Dyma rai enghreifftiau.

- Mae **un siawns mewn 50** yn golygu bod un siawns bod syndrom Down ar eich babi, a 49 siawns nad yw syndrom Down ar y babi.
- Mae **un siawns mewn 450** yn golygu bod llai o siawns bod syndrom Down ar eich babi. Hynny yw, mae un siawns bod syndrom Down ar eich babi a 449 siawns nad yw syndrom Down ar y babi.

Mae'n bosib i unrhyw fenyw gael babi â syndrom Down. Mae hynny'n cynnwys menywod a gafodd ganlyniad sy'n dangos bod ganddyn nhw siawns is (llai nag un siawns mewn 150).

Os oes siawns uwch gennych chi o gael babi â syndrom Down, fe gewch chi gyfle i drafod y canlyniad ac i gael profion cromosomaidd.

Roedd y prawf sgrinio a gawsoch chi am syndrom Down yn dangos pa siawns sydd gennych chi o gael â syndrom Down.

I gyfrifo'r siawns fod syndrom Down ar eich babi, defnyddiodd rhaglen ar gyfrifiadur:

- eich oedran;
- canlyniadau'r prawf gwaed;
- eich cefndir ethnig;
- gwybodaeth am eich arferion smygu (os ydych chi'n smygu);

- canlyniadau'r prawf uwchsain cynnar mewn beichiogrwydd;
- a'ch pwysau.

Bydd bydwraig yn gwneud yn siŵr bod y wybodaeth yma'n gywir. Os nad yw'n gywir, bydd y cyfrifiadur yn cyfrifo eich canlyniad eto.

Mae'r siawns o gael babi â syndrom Down yn cynyddu wrth i chi fynd yn hŷn.

Mae canlyniad y prawf sgrinio'n rhoi sylw i'ch oedran. Mae'r prawf sgrinio am syndrom Down yn gallu amcangyfrif eich siawns o gael babi â syndrom Down yn fwy cywir nag wrth amcangyfrif ar sail eich oedran yn unig.

Ystyr canlyniad sgrinio am syndrom Down

Nid yw'r canlyniad yn golygu bod syndrom Down ar eich babi. Dim ond dangos pa fenywod sydd â siawns uwch o gael babi â syndrom Down y mae'r prawf sgrinio.

Nid yw'r rhan fwyaf o fenywod sy'n cael canlyniad o siawns uwch yn cael babi â syndrom Down. Mae nifer o bethau'n gallu achosi canlyniad o siawns uwch, ac nid yw'r canlyniad yn arwydd bendant o broblem.

Mae'r canlyniad yn golygu eich bod chi'n perthyn i'r grŵp o fenywod sy'n cael cyfle i gael prawf cromosomaidd. Mae tua 3% (hynny yw, tair menyw o bob 100) o'r menywod sy'n cael y prawf sgrinio am syndrom Down yn cael cyfle i gael prawf cromosomaidd.

Nid oes yr un prawf yn gwbl gywir, ond mae'r profion cromosomaidd am syndrom Down yn ddibynadwy iawn. Fel arfer, maen nhw'n rhoi ateb pendant i chi.

I wneud y prawf diagnostig, mae angen cymryd sampl o'r hylif sydd o gwmpas eich babi yn y groth. Yr enw ar y weithred i dynnu'r hylif yma yw amniocentesis.

Chi yn unig sy'n gallu penderfynu ydych chi'n awyddus i gael y weithred. Gall eich bydwraig neu'ch obstetregydd esbonio'r prawf i chi.

Beth yw syndrom Down?

Mae syndrom Down yn gyflwr genetig sy'n golygu bod cromosom ychwanegol yn bresennol yn y corff. Mae 47 cromosom yn lle 46.

Cyflwr am oes yw Syndrom Down a bydd yn arwain at rywfaint o anabledd dysgu.

Mae'r cromosom ychwanegol yn ymddangos wrth i'r sberm ffrwythloni'r wy, neu ychydig wedi hynny. Nid yw'n glir pam mae hyn yn digwydd. Nid yw'n bosib tynnu'r cromosom ychwanegol o'r celloedd felly nid yw'n bosib gwella'r cyflwr hyd yn oed os yw'n bosib cael diagnosis ohono cyn i'r babi ei eni.

Babanod â syndrom Down

Os oes amheuaeth o syndrom Down, dyma'r arwyddion mae gweithwyr y proffesiynau iechyd yn chwilio

amdanyn nhw. Efallai fod pob un o'r arwyddion yn bresennol mewn babi â syndrom Down, neu ddim ond rhai.

- Mae'r llygaid yn aml yn goleddu i fyny ac allan. Mae'n bosib i amrannau'r llygaid fod â phlyg ychwanegol o groen (plyg epicanthig) sy'n gallu gwneud y goleddu'n fwy amlwg.
- Efallai fod cyhyrau a chymalau'r babanod yn fwy llac na rhai babanod eraill.
- Efallai fod pwysau geni'r babanod yn is na'r cyfartaledd, ac maen nhw'n ennill pwysau'n arafach na babanod eraill.
- Efallai fod cefn pen y babi'n fwy gwastad na'r cyfartaledd.
- Mae gan nifer o fabanod â syndrom Down un crych sy'n rhedeg yr holl ffordd ar draws cledr y llaw.
- Mae babanod â syndrom Down yn dal i edrych yn fwy fel aelodau eraill o'u teuluoedd nag fel unrhyw un arall.

Mae plant â syndrom Down fel arfer yn datblygu ac yn dysgu'n arafach na phlant eraill.

Nid oes unrhyw brofion a allai ddweud wrthych chi pa anawsterau y bydd eich babi'n eu cael. Bydd y rhan fwyaf o fabanod â syndrom Down yn dysgu cerdded a siarad. Mae'r rhan fwyaf o blant â syndrom Down yn mynd i ysgolion prif ffrwd ac yn dysgu darllen ac ysgrifennu.

Mae'n bosib y bydd ganddyn nhw rai problemau meddygol a fydd yn gofyn am sylw a thriniaeth arbennig. Bydd problem ar galonnau tua hanner y plant â syndrom Down, ac efallai y bydd angen llawdriniaeth arnyn nhw. Mae rhai o'r problemau ar y galon yn gallu peryglu eu bywydau. Mae tua 20% (un o bob pum plentyn) o'r plant â syndrom Down yn marw cyn cyrraedd pump oed.

Gyda gofal meddygol addas, mae'r rhan fwyaf o blant ac oedolion sydd â syndrom Down yn gallu byw bywydau iach.

Mae oedolion â syndrom Down yn gallu byw'n lled annibynnol. Gallan nhw ddewis eu ffrindiau a'u partneriaid, a gweithio neu gyfrannu mewn ffyrdd eraill at gymdeithas. Mae'n bosib y bydd angen help arnyn nhw i ofalu amdanyn nhw'u hunain.

Ar gyfartaledd, mae disgwyl i rywun â syndrom Down fyw i fod yn 55 oed. Ond mae nifer yn byw i fod yn 60 oed neu'n hŷn.

Mae clefyd Alzheimer (math o ddementia) yn gallu effeithio ar bobl â syndrom Down yn gynt yn eu hoes na phobl eraill.

Mae gwasanaethau cymorth ar gael i deuluoedd sydd â phlentyn â syndrom Down. Un ohonyn nhw yw'r Gymdeithas Syndrom Down (mae cyfeiriad y Gymdeithas yng nghefn y daflen yma).

Eich apwyntiad yn yr ysbyty

Efallai'ch bod chi wedi cael cyfle'n barod i gael apwyntiad gyda bydwraig yr ysbyty sy'n arbenigo ar sgrinio cyn geni, neu gyda meddyg (neu'r ddau). Pwrpas yr apwyntiad yma yw esbonio canlyniad y prawf sgrinio am syndrom Down yn fwy manwl, ac i ofyn a ydych

chi'n bwriadu cael amniocentesis er mwyn i brofion cromosomaidd gael eu gwneud.
Bydd y fydwraig neu'r meddyg yn yr ysbyty'n rhoi mwy o wybodaeth i chi am yr amniocentesis, ac yn esbonio'r dull o'i wneud. Nid oes rhaid i chi gael y weithred. Mae rhai menywod yn penderfynu peidio â chael amniocentesis. Beth bynnag fydd eich penderfyniad, bydd y fydwraig a'r meddyg yn eich cefnogi.

Efallai y byddwch chi eisiau mwy o amser i benderfynu beth i'w wneud nesaf. Efallai y byddwch chi'n awyddus i ofyn nifer o gwestiynau i'r fydwraig a'r meddyg, ac efallai y byddwch chi'n awyddus i drefnu apwyntiad arall. Efallai y byddwch chi'n awyddus i ddod â'ch partner neu ffrind gyda chi.

Os byddwch chi'n penderfynu cael amniocentesis, efallai y bydd y staff yn cynnig apwyntiad arall i chi cyn gynted â phosib.

Nid yw'r weithred yma ar gael ym mhob ysbyty. Efallai y byddwch chi'n cael apwyntiad arall mewn ysbyty arall lle mae'n bosib gwneud y prawf.

Amniocentesis

Mae angen gwneud amniocentesis os ydych chi'n awyddus i gael gwybod cyn i'ch babi gael ei eni a oes problem ar ei gromosomau.

Mae profion cromosomaidd yn ffordd gywir iawn o ddweud a oes syndrom Down ar eich babi neu beidio.

Gweithred yw amniocentesis sy'n golygu tynnu ychydig iawn (tua 15-20 mililitr) o'r hylif amniotig sydd o gwmpas y babi yn eich croth.

Mae'n bosib gwneud profion mewn labordy ar y celloedd o'ch babi sy'n nofio yn yr hylif yma, er mwyn edrych ar y cromosomau.

Yng Nghymru, mae dau brawf yn cael eu gwneud ar yr hylif amniotig er mwyn edrych ar gromosomau'r babi. Y cyntaf yw'r prawf **PCR** (adwaith cadwynol polymerase) a'r ail yw'r prawf **caryoteip**. Bydd canlyniad y prawf PCR ar gael cyn pen tri diwrnod gwaith, a bydd canlyniad y prawf caryoteip ar gael mewn tua phythefnos.

Mae posibilrwydd y gallai amniocentesis achosi erthyliad naturiol. Os byddwch chi'n cael amniocentesis, mae siawns o 1% y gallech chi gael erthyliad naturiol (sy'n golygu y gallai un fenyw o bob 100 golli ei babi). Mae'r erthyliad naturiol yn gallu golygu colli babi oedd â syndrom Down neu un oedd heb y syndrom.

Mae mwy o wybodaeth am y prawf yma mewn taflen o'r enw 'Amniocentesis' y gallwch ei chael gan eich bydwraig neu o www.antenatalscreening.org.

Efallai y byddwch chi'n awyddus i ystyried beth i'w wneud os bydd canlyniad y prawf yn dangos bod annormaledd. Bydd rhai menywod yn dewis paratoi ar gyfer geni'r babi gan wybod am y broblem. Efallai y bydd rhai menywod eraill yn dewis terfynu'r beichiogrwydd. Bydd menywod eraill eto'n dewis gadael i'r beichiogrwydd barhau, ac yn ystyried rhyddhau'r babi i gael ei fabwysiadu wedyn.

Gallwch chi gael mwy o wybodaeth am syndrom Down a phrofion cyn geni gan eich bydwraig neu o glinig cyn geni eich ysbyty lleol.

Mwy o wybodaeth

Gallwch chi gael mwy o wybodaeth o:

Antenatal Results and Choices (ARC)

Elusen annibynnol yw ARC sy'n cynnig gwybodaeth a chymorth arbenigol drwy gydol y broses o gael profion sgrinio cyn-geni a phrofion eraill, ac wedi hynny.

Antenatal Results and Choices (ARC)
73 Charlotte Street
Llundain
W1T 4PN

Llinell gymorth: 0207 631 0285
Gwefan: www.arc-uk.org
E-bost: info@arc-uk.org

Cymdeithas Syndrom Down (DSA)

Un o wasanaethau cymorth Cymdeithas Syndrom Down yw gwasanaeth cynghorwyr sydd ar gael i siriad â theuluoedd drwy gydol y broses o gael profion, a drwy gydol pletyndod y babi ac wrth iddo dyfu'n oedolyn.

Cymdeithas Syndrom Down (DSA)
Langdon Down Centre
2a Langdon Park
Teddington
TW11 9PS

Ffôn: 0845 230 0372
Ffacs: 0845 230 0373
Gwefan:
www.downs-syndrome.org.uk
E-bost:
info@downs-syndrome.org

Manylion cysylltu lleol